| | |
|---|---|
| Cyfarfod | **Y CYNGOR** |
| Dyddiad | 5/12/13 |
| Pwnc | Adroddiad Blynyddol Panel Rhiant Corfforaethol Gwynedd |
| Pwrpas yr Adroddiad | Cyflwyno'r adroddiad i sylw'r Cyngor am drafodaeth |
| Awdur | Siân Gwenllian, Dirprwy Arweinydd y Cyngor. |

**Cyflwyniad**
Mae cyfrifoldeb statudol clir ar y Cyngor fel "rhiant corfforaethol" i blant sydd mewn gofal ac mae disgwyliad clir ar bob Cyngor i ymarfer y rôl honno'n briodol fel "pe tai'n blentyn i mi".

Mae'n bwysig cofio bod y cyfrifoldeb rhiantu ar y Cyngor cyfan, ond mae rôl penodol i'r Panel Rhiant Corfforaethol i gymryd trosolwg o les a buddiannau'r plant hyn.

Mae'n ymarfer da i lunio adroddiad blynyddol sydd yn disgrifio'r gefnogaeth a roddir yn nhermau llais plant a phobl ifainc, y ddarpariaeth gwasanaeth, lleoliadau a nifer o faterion eraill a welir yn yr adroddiad sydd ynghlwm. Yn ogystal â'r adroddiad ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni, elfen allweddol o'r papurau yw'r rhaglen waith sydd yn nodi'r meysydd sydd i gael sylw dros y misoedd nesaf.

Mae'r adroddiad a'r atodiad wedi cael ei gymeradwyo gan y Cabinet ar 8 Hydref, 2013.

Dylwn nodi hefyd, er gwybodaeth y byddaf wedi ymddangos gerbron y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 28 Tachwedd, 2013 i gael fy nghraffu ar y gwaith yn y maes hwn. Os yw'r Cyngor yn dymuno, medraf adrodd ymhellach ar lafar ar ganlyniad y craffu hwnnw.

**Rhesymau dros yr Argymhelliad**
Mae cefnogaeth gorfforaethol y Cabinet yn ran bwysig o ymrwymiad y Cyngor tuag at y cyfrifoldeb statudol sydd arno. Nid mater un adran yw'r cyfrifoldeb hyn ac mae'r Cabinet yn awyddus i fod yn cefnogi hynny.

**Ystyriaethau Perthnasol**
Wrth bwyso a mesur yr hyn sydd yn y rhaglen waith, mae'n briodol ystyried y materion capasiti sydd yn codi ohonynt. Mae'r rhaglen waith wedi ei drafod a'i gytuno yn fewnol cyn ei gyflwyno i'r Cabinet ac mae'r adnoddau angenrheidiol i wireddu'r rhaglen waith yn eu lle.

**Argymhelliad**
Argymhellir bod y Cyngor yn cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r rhaglen waith sydd ynghlwm iddo.